**EITEM AR YR AGENDA: 7**

**PWYLLGOR ARCHWILIO**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**26 Medi 2011**

**DATGANIAD O GYFRIFON 2010-11 A'R LLYTHYR SYLWADAU**

**Adroddiad gan Ken Finch, Trysorydd i'r Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r Datganiad o Gyfrifon archwiliedig am 2010-11 i'r Aelodau i'w cymeradwyo.

2 Cyflwynwyd y cyfrifon i'r Panel Gweithredol ar 19 Medi 2011. Trwy gyflwyno'r cyfrifon i'r ddau bwyllgor, sicrheir y bydd holl Aelodau'r Awdurdod wedi cael cyfle i edrych ar y set ddiweddaraf o gyfrifon ac i roi sylwadau arnynt. Rhoddir gwybod ar lafar yn y cyfarfod am unrhyw sylwadau gan y Panel Gweithredol.

## Gwybodaeth

3 Dyma'r flwyddyn gyntaf i'r cyfrifon gael eu paratoi yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), ac mae hynny wedi golygu llawer iawn o waith. Y newid mawr yw'r modd y cyflwynir y datganiadau ariannol craidd (tudalennau 24 i 27), ac am flwyddyn gyntaf y trosi o'r Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig (UK GAAP) i'r Safonau IFRS, mae'r fantolen yn dangos trafodion am dair blynedd ariannol fel cymorth i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol. Mae dadansoddiad o ardrawiad dyfodiad yr IFRS i'w gael ar dud. 6 o'r cyfrifon.

4 Hefyd yn newydd eleni, mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (tudalennau 8 i 16), a chafodd yr Aelodau gyflwyniad ar hwnnw yn y Pwyllgor Archwilio ar Fehefin 6 2011. Mae'r datganiad yn dod yn lle'r Datganiad Rheolaeth Fewnol, ac mae'n unol â'r egwyddorion sydd yn y fframwaith 'Delivering Good Governance in Local Government' a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a Chymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol (SOLACE).

5 Yn y blynyddoedd blaenorol, byddai'r Datganiad drafft o Gyfrifon wedi cael ei gyflwyno i'r cyfarfod o'r Awdurdod llawn ym mis Mehefin, ond oherwydd newidiadau deddfwriaethol – Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Diwygio) (Cymru) 2010 – nid yw bellach yn ofyniad i gael cymeradwyaeth yr Aelodau cyn archwilio'r cyfrifon. Er hynny, mae'n parhau'n ofyniad i'r cyfrifon archwiliedig gael eu cymeradwyo gan yr Aelodau erbyn 30 Medi. Rhoddwyd awdurdod dirprwyedig i gymeradwyo'r cyfrifon i'r Pwyllgor Archwilio.

6 Yn lle'r cyfrifon drafft, cyflwynwyd adroddiad Perfformiad Ariannol am 2010-11 i'r Aelodau, ac roedd yn nodi'r union wariant am y flwyddyn o'i gymharu â'r gyllideb, a cheiswyd cymeradwyaeth yr Aelodau i roi arian o'r tanwariant o'r neilltu mewn cronfa gyffredinol, gan adrodd mai'r tanwariant oedd £627k. Fodd bynnag, wrth ddod â'r broses i ben, adnabuwyd rhai costau y dylid bod wedi eu dyrannu i'r refeniw yn hytrach na'r cyfalaf, felly mae hyn wedi lleihau'r tanwariant i £223k.

**Newidiadau wedi Archwilio**

7 Mae'r cyfrifon bellach wedi cael eu harchwilio gan yr Archwilydd a benodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, ac maent wedi eu diwygio yn unol â chanfyddiadau'r archwiliad a'r trafodaethau a gafwyd wedyn ynglŷn â thrin y cyfrifon, diffiniadau a'r modd y cyflwynir eitemau penodol o fewn y cyfrifon.

8 Mae dadansoddiad manwl o'r camddatganiadau a welwyd yn y cyfrifon drafft ac a gywirwyd, yn rhan o'r 'Adroddiad Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol' a gyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio gan yr

Archwilydd Penodedig gyda’r cyfrifon. Rhestrir crynodeb o’r newidiadau isod.

a) Ailddosbarthu buddsoddiadau tymor hir yn arian a chyfwerth ag arian, £2,004k;

b) Ailddosbarthu’r ddarpariaeth bensiynau i gronfeydd a glustnodir, £165k.

## Llythyrau Sylwadau

9 Ynghlwm wrth yr adroddiad hwn, fel atodiad A, mae copïau o’r ohebiaeth rhwng yr Archwilwyr Allanol a minnau ynglŷn ag archwilio’r datganiadau cyfrifyddu. Eleni, mae dau lythyr sylwadau. Mae un llythyr sylwadau at yr Archwilydd Penodedig i gefnogi barn yr Archwilydd Penodedig ar y datganiadau ariannol, sef yn yr achos hwn, Swyddfa Archwilio Cymru. Mae’r llythyr ychwanegol eleni yn un o ofynion y Safonau Archwilio sef bod angen i KPMG gael sylwadau gan yr Awdurdod i gefnogi eu barn archwilio wedi ei gyfeirio at yr Archwilydd Penodedig. Mae’r llythyrau’n esbonio’r rhesymau dros y llythyrau sylwadau.

## Argymhelliad

10 Bod yr Aelodau’n cymeradwyo’r Datganiad o Gyfrifon archwiliedig am 2010-11, ac yn cydnabod y Llythyrau Sylwadau a anfonwyd at yr Archwilwyr Allanol.